OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 2494 (Cy.214)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) Gorchymyn 2007

Gwnaed - - - -	*2.50pm ar 28 Awst 2007*
Yn dod i rym - -	*3.05 pm ar 28 Awst 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1, 7 a 23(f) a (g) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Cymru) Gorchymyn 2007:

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn rym am 3.05pm ar 28 Awst 2007.

Diwygio Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) Gorchymyn 1978

2.—(1) Diwygier Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) 1978(**2**) yn unol â'r Erthygl hon.

(2) Yn y tabl yn Atodlen 1 (sy'n rhestru diheintyddion a gymeradwywyd) ar ôl y rhes sy'n cynnwys y cofnod ar gyfer VI-RID mewnosoder

"Virkon Advanced	200*	250*	200*"

(**1**) 1981 p. 22; gweler adran 86(1) i gael y diffiniad o "the Ministers". Trosglwyddwyd swyddogaethau'r "Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044, ac maent yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) O.S. 1978/32, a'r diwygiad perthnasol diwethaf i'r rhestri o ddiheintyddion a gymeradwywyd yw O.S. 2006/3166 (Cy.291).